OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 87

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

RHAN 4

Diwygiadau i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

PENNOD 2

Myfyrwyr o diriogaethau tramor Prydeinig a diwygiadau cysylltiedig

15. Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1), ym mharagraff (e) o'r diffiniad o "aelod o deulu", yn lle "paragraffau 9, 9B, 9C, 9D a 9E" rhodder "paragraffau 9, 9B, 9E ac at ddibenion paragraffau 9C a 9D mewn perthynas â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(b) ym mharagraff 9C(1)(a)—

(i) yn is-baragraff (i), yn lle "yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig" rhodder "yn berson sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig";

(ii) yn is-baragraff (ii), ar y diwedd mewnosoder ", neu a fyddai'n berson o'r fath pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig".